PWYLLGOR CRAFFU’R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD MAWRTH, 28 CHWEFROR 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Wong(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Berman, Brown-Reckless, Cunnah, Henshaw, Jenkins, Lloyd Jones, Naughton a/ac Thomson |

60 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau hefyd gan Zack Hellard, Cynrychiolydd y Cyngor Ieuenctid.

61 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim wedi’u derbyn.

62 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12.12.22 yn gofnod cywir, yn amodol ar wneud newid ar gyfer mynychwr. Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18.01.23 yn gofnod cywir.

63 : CYNLLUN CORFFORAETHOL DRAFFT 2023 - 2026 A CHYNIGION CYLLIDEBOL DRAFFT 2023-2024

Dwedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod yr eitem hon yn rhoi cyfle iddynt ystyried yr eitemau hynny yn y Cynllun Corfforaethol drafft a'r Cynigion Cyllidebol drafft sy'n dod dan gyfrifoldeb y Pwyllgor hwn, gyda’r cabinet yn ystyried y rhain Ddydd Iau 2 Mawrth, cyn y Cyngor ar 9 Mawrth 2023.

Eglurodd y Cadeirydd fod yr adroddiad crynhoi craffu gan Aelodau fel rhan o'u pecyn o bapurau ar gyfer y cyfarfod hwn, gyda'r adroddiad wedi'i strwythuro yn ôl portffolio Aelodau'r Cabinet.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Weaver, Aelod Cabinet - Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad; Chris Lee - Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau ac Ian Allwood - Pennaeth Cyllid ar gyfer yr eitem hwn. Gwahoddwyd y Cynghorydd Weaver i wneud datganiad, ac ar ôl hynny rhoddodd Swyddogion gyflwyniad.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i’r Aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Cynllun Corfforaethol 2023 - 2026

Amlygodd Aelodau mai'r unig ran o'r Cynllun Corfforaethol sy'n cyfeirio at y Celfyddydau a Diwylliant oedd Amcan Llesiant 5 . Credai aelodau y gall y Celfyddydau a Diwylliant hefyd chwarae rhan allweddol wrth fynd i'r afael â meysydd eraill, megis Amcan Llesiant 4 – Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymus. Nododd yr Aelodau fod Strategaeth Ddiwylliant newydd yn cael ei pharatoi i gyd-fynd â Strategaeth Ddiwylliant newydd Llywodraeth Cymru.

Cyllideb Gyffredinol

Yn ystod eu trafodaethau, nododd yr Aelodau y pwyntiau canlynol yn benodol:

- Mae lefel y swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE) sy'n cael eu colli tua'r un fath â 6/7 mlynedd yn ôl

- Mae tua thraean o'r swyddi FTE sy'n cael eu colli eisoes yn wag

- Mae rhai o'r swyddi FTE a ddangosir fel rhai a allai gael eu trosglwyddo yn ymwneud â Neuadd Dewi Sant, gyda phenderfyniad ar hyn eto i'w wneud

- Mae'r gyllideb Covid-19 gwerth £10milion yn cael ei rhyddhau a'i defnyddio tuag at ailalinio

- Mae cyllideb sylfaenol y Gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd wedi ei hailalinio i fynd i'r afael â phwysau ariannol.

Portffolio'r Cynghorydd Merry

Roedd Aelodau'n falch o nodi fod Addewid Caerdydd i dderbyn cynnydd mewn cyllid, yn sgil £400,000 o gynnydd mewn incwm o arian grant allanol.

Portffolio y Cynghorydd Bradbury

Ar gyfer yr adran hon, croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Bradbury – Aelod Cabinet, Trechu Tlodi a Chefnogi Pobl Ifanc a Helen Evans - Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Tai a Chymunedau

Atgoffwyd yr Aelodau mai meysydd portffolio y Cynghorydd Bradbury sy'n dod o dan y pwyllgor hwn yw gwasanaethau I Mewn I Waith a Dysgu Oedolion yn y Gymuned.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Roedd Aelodau'n falch o nodi bod y gwasanaeth I Mewn I Waith wedi derbyn cynnydd cyffredinol mewn cyllid drwy ddefnydd creadigol o grantiau, gan gynnwys trwy'r Gronfa Ffyniant Bro lle mae cyllid yn cael ei warantu tan 2025.

Roedd Aelodau'n falch o nodi bod yr argymhellion a wnaed yn dilyn Panel Perfformiad y Cadeiryddion Craffu – i ychwanegu cam ynghylch cymorth yn y gwaith ac i ychwanegu Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA/*KPI*) ynghylch cleientiaid Gwasanaeth i Mewn i Waith sy'n nodi eu bod o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig – wedi cael eu derbyn a'u cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol drafft. Fodd bynnag, hoffai'r Aelodau weld targed wedi'i osod yn erbyn y DPA newydd ac yn dymuno derbyn cynnig y Cynghorydd Bradbury i weithio gyda'r Cadeirydd i sicrhau bod ysbryd a llythyren argymhelliad y Cadeiryddion Craffu yn cael sylw llawn.

O ran HACE3, nododd Aelodau y dylid dangos y graddfeydd COG ar gyfer Cyraeddadwyedd a Gweddilliol nawr yn Wyrdd, gan fod y ddwy swydd bellach yn wag.

Portffolio y Cyng. Thorne

Ar gyfer y rhan hon, croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lynda Thorne, Rebecca Hooper – Rheolwr Gweithredol, Adfywio Cymdogaethau a Helen Evans (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Tai a Chymunedau)

Atgoffwyd yr Aelodau mai meysydd portffolio y Cynghorydd Thorne sy'n dod o dan y pwyllgor hwn yw Llyfrgelloedd a Hybiau ac Adfywio Lleol.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Tynnodd yr Aelodau sylw at y geiriad a ddefnyddiwyd yn adran Cyllid adroddiad crynhoi, ar bwynt 25b, a oedd yn datgan 'O ran Hybiau a Llyfrgelloedd, nid yw cynigion i leihau oriau agor a/neu gau ar benwythnosau wedi'u datblygu ac mae unrhyw newidiadau yn cael eu cyfyngu i gael gwared ar nifer fach o swyddi gwag hirdymor yn y gwasanaeth'. Holodd yr Aelodau pam y nodwyd bod swyddi gwag yn 'hirdymor' yn y datganiad hwn ond nid yn y llinellau cyllideb perthnasol a HACE4, sydd hefyd yn cynnwys 1 diswyddo gwirfoddol, a HACSC1, sy'n nodi y bydd swyddi'n cael eu dileu wrth iddynt gael ddod yn wag. Nododd yr Aelodau ymateb y Cynghorydd Thorne y dylid newid geiriad 25b. Nododd yr Aelodau ymateb y swyddog bod y swyddi gwag y cyfeiriwyd atynt yn HACE4 wedi bod yn wag am oddeutu 6 mis ac, o ran HACSC1, y bwriad yw symud yn raddol at wirfoddolwyr i sicrhau bod digon o adnoddau mewn hybiau.

Holodd yr Aelodau sut yr ailddyrennir staff yn dilyn dileu swyddi ac roeddent yn falch o nodi sicrwydd y swyddog y bydd staff yn cael eu symud ar draws y gwasanaeth i sicrhau bod gan bob llyfrgell a hyb adnoddau digonol yn eu lle, a bod timau eraill fel staff y Gwasanaeth i Mewn i Waith yn gallu agor/cau adeiladau i sicrhau bod yr oriau agor yn parhau.

Portffolio'r Cynghorydd Thomas

Ar gyfer yr adran hon, croesawodd y Cadeirydd yr Arweinydd, y Cynghorydd Huw Thomas a Neil Hanratty (Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd)

Atgoffwyd Aelodau mai'r adrannau sy'n dod o fewn portffolio'r Pwyllgor yw'r Fargen Ddinesig a phartneriaethau rhanbarthol.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Nododd Aelodau fod lleoliad coed yn y Sgwâr Canolog yn cael ei arwain gan arweiniad arbenigol ar reoli a rheolaeth torfeydd, sydd ei angen er mwyn delio â'r nifer uchel o ymwelwyr a welir ar ddiwrnodau digwyddiadau, megis gemau'r Chwe Gwlad diweddar a gynhaliwyd yng Nghaerdydd. O ran gwaith i ddatblygu i'r de o'r Orsaf Ganolog, nododd yr Aelodau fod y prosiect hwn yn cael ei arwain gan Andrew Gregory, Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, ac mai'r bwriad yw i'r safle hwn gynnig lle i National Express, ac y bydd cyllid Ffyniant Bro a gadarnhawyd yn ddiweddar ar gyfer y Metro ar draws Sgwâr Callaghan yn cynorthwyo'r gwaith i'r de o'r Orsaf Ganolog.

Portffolio'r Cynghorydd Goodway

Ar gyfer yr adran hon, croesawodd y Cadeirydd yr Arweinydd, y Cynghorydd Huw Thomas, Neil Hanratty (Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd), Donna Jones -

Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Ystadau'r Sir a Jon Day - Rheolwr Gweithredol – Twristiaeth a Buddsoddi

Cafodd Aelodau gyflwyniad ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan Aelodau.

O ran ECDE18, nododd yr Aelodau, gan fod y pedair swydd a gynigiwyd i'w dileu yn wag, na fydd gostyngiad yn y capasiti presennol. Nododd aelodau hefyd fod swyddogion yn chwilio am gyllid allanol i ategu yr adnoddau presennol a chynyddu darpariaeth y gwasanaeth.

Nododd aelodau fod ECDE14 yn ymwneud â swyddogion sy'n ceisio hawlio am y gwaith gweinyddol a wneir o ran gwneud cais am grantiau a'u gweinyddu, gan arwain at fwy o incwm o grantiau, yn ogystal â gwneud mwy o ddefnydd o grantiau, megis grantiau Trawsnewid Trefi.

Amlygodd Aelodau fod ymatebion i'r ymgynghoriad a'r adborth a gafwyd gan eu hetholwyr yn aml yn cwestiynu pam mae'r Cyngor yn blaenoriaethu prosiectau mawr fel yr Arena Dan Do a Chwr y Gamlas ar adeg pan fydd adnoddau dan straen. Felly, gofynnodd Aelodau am esboniad i leddfu'r pryderon hyn. Nododd yr Aelodau ymateb y Cynghorydd Thomas fod prosiectau mawr yn darparu cyflogaeth, hyfforddiant a busnes yn ystod y gwaith adeiladu, yn arwain at ardal gyhoeddus mwy deniadol, ac yn y pen draw yn arwain at fwy o ymwelwyr, mwy o niferoedd yn dod yno ac oedi yno, sydd yn ei dro yn cefnogi busnesau presennol, yn ogystal â manteision eraill, megis y cynllun y SDCau yn Cwr y Gamlas.

Nododd Aelodau hefyd, o ran yr Arena Dan Do, y bydd y partner datblygu yn ad-dalu costau i'r Cyngor ac yn cwrdd â phwysau chwyddiant, a bydd yr Arena Dan Do yn eiddo i'r Cyngor ar ddiwedd y contract.

Nododd Aelodau fod rhannau sylweddol o gynllun Cwr y Gamlas yn cael eu hariannu gan grant ac felly nid ydynt yn effeithio ar arian sydd ar gael ar gyfer darparu gwasanaethau'r cyngor.

Gofynnodd Aelodau am y rhesymeg dros beidio â chynyddu costau ffilmio yn y ddinas o ystyried y gallai hyn godi refeniw, o ystyried y cynnydd tebygol mewn ffilmio yng Nghaerdydd. Nododd Aelodau yr esboniad bod y ffioedd a'r taliadau hyn yn ymwneud â'r swyddfa ffilm ac, fel y bo'n briodol, y byddai ffioedd a thaliadau eraill yn cael eu codi, er enghraifft ar gyfer cau ffyrdd a llogi lleoliadau.

Gofynnodd Aelodau sut mae'r Cynllun Corfforaethol yn mynd i'r afael â'r angen am adferiad canol dinas ar ôl y pandemig, a nodi'r ymateb fod Cam 5.04 yn ymdrin â hyn, law yn llaw â Strategaeth Adfer y Cyngor a gyhoeddwyd yn flaenorol a Chynllun Gweithredu Adfer Canol y Ddinas. Nododd Aelodau fod y Cyngor yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gydag Ardal Gwella Busnes Canol y Ddinas, Croeso Caerdydd, yn ogystal â thirfeddianwyr a bod nifer yr ymwelwyr yn iachach yng Nghaerdydd nag mewn mannau eraill. Roedd Aelodau'n falch o glywed y Cynghorydd Thomas yn pwysleisio bod y pecyn cymorth 15 munud yn gymaint o offeryn Economaidd ag yw o offeryn Amgylcheddol, a dyna pam y cafodd ei gynnwys yn WBO5, a nodwyd bod y dull hwn yn cael ei ymgorffori mewn prosiectau Adfywio Cymdogaethau a rhai'r Gronfa Ffyniant Bro.

O ran yr Arena Dan Do, nododd Aelodau y bydd ganddi gapasiti o 15,000, Maes Parcio Aml-lawr gydag ychydig yn llai o leoedd nag a geir ar hyn o bryd yn y meysydd parcio presennol yn Neuadd y Sir a Chanolfan y Ddraig Goch, y bydd yn cynhyrchu niferoedd ymwelwyr i gefnogi trafnidiaeth gyhoeddus, gyda chyllid Ffyniant Bro i'w ddefnyddio i gynorthwyo gyda'r gwaith arfaethedig i ymestyn y Metro, darparu cyswllt tram o Ganol Caerdydd yn ogystal â gwella llwybrau cerdded a beicio ar hyd Rhodfa Lloyd George.

Portffolio y Cynghorydd Burke

Ar gyfer yr adran hon, croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Burke, Aelod Cabinet – Diwylliant, Parciau, Digwyddiadau a Lleoliadau, Jon Maidment, Pennaeth Parciau ac Awdurdod Harbwr Caerdydd, Donna Jones - Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Ystadau'r Sir a Neil Hanratty.

Cafodd Aelodau gyflwyniad ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan Aelodau.

Derbyniodd yr aelodau ddeiseb gan Jane Henderson, prif ddeisebydd Cymdeithas Ddinesig Caerdydd, a nodi ei diolch i'r Cabinet am wrando a pheidio â bwrw ymlaen â'r cynnig ynghylch Amgueddfa Caerdydd. Roedd gan yr aelodau ddiddordeb clywed y pwyntiau a wnaed gan Jane Henderson ac roeddent yn falch o glywed y Cynghorydd Burke yn pwysleisio ei bwriad i weithio gydag ymddiriedolwyr a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu cynigion ar gyfer dyfodol cynaliadwy i'r amgueddfa.

Gofynnodd yr Aelodau am gadarnhad bod y Cabinet yn bwrw ymlaen â chynlluniau ynghlwm â Neuadd Dewi Sant, fel yr amlinellwyd i'r pwyllgor ym mis Rhagfyr 2022, a nodwyd bod gwaith yn mynd rhagddo i fynd drwy'r broses VEAT, gydag adroddiad ar hyn yn dod yn ôl at graffu cyn i'r Cabinet wneud penderfyniad. Nododd yr aelodau fod y gwaith hwn yn cael ei yrru gan yr angen i fynd i'r afael â chyflwr Neuadd Dewi Sant.

Yn ystod gwaith craffu'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2022, gofynnodd Aelodau am osod deunyddiau ymgynghori ar y gyllideb yn Neuadd Dewi Sant a derbyniwyd y cais hwn; fodd bynnag, ni allai Aelodau weld unrhyw gyfeiriad at hyn yn yr Adroddiad Ymgynghori.

Nododd aelodau sicrwydd y swyddog nad oes cysylltiad rhwng prosiect yr Arena Dan Do a phrosiect Neuadd Dewi Sant.

O ran Canolfan Hamdden Pentwyn, nododd Aelodau y cyngor gan swyddogion eu bod yn dal i weithio i gyllideb o £5M, fel y cynghorwyd yn flaenorol. Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch lle mae hyn i'w weld yn y rhaglen gyfalaf. Hefyd, gofynnodd Aelodau am eglurhad ynghylch a fydd y ffordd arfaethedig ymlaen yn cynnwys pwll a chaffi, fel y trafodwyd yn flaenorol.

O ran y ffioedd ffilmio ar gyfer llogi Castell Caerdydd, nododd Aelodau fod ystod o daliadau yn dibynnu a yw'r llogi ar gyfer y Castell cyfan, ystafelloedd penodol, neu ddefnydd mwy cyffredinol. Nododd yr Aelodau hefyd fod lefel y tâl yn adlewyrchu'r cyngor a dderbyniwyd gan uned ffilm y Cyngor ar sut i godi refeniw a pharhau'n gystadleuol.

Roedd rhai Aelodau yn dymuno rhoi eu pryderon ar glawr eu bod yn teimlo bod eu cwestiynu wedi eu cwtogi yn ystod y cyfarfod gan fod nifer y cwestiynau wedi eu cyfyngu.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

64 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim wedi'u derbyn.

65 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dydd Mercher 21 Mawrth 2023

Daeth y cyfarfod i ben am 3.55 pm